Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Deisebau

# Mynediad ar hyd dŵr mewndirol

Ebrill 2009

**Adroddiad yn dilyn ymchwiliad byr y Pwyllgor Deisebau i fynediad ar hyd dŵr mewndirol**

1. Ar 27 Ionawr, cytunodd Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol i gynnal ymchwiliad byr ar sail deiseb a ddaeth i law gan Gymdeithas Canŵio Cymru. Roedd y deisebwyr yn galw am ddeddfwriaeth i sefydlu hawl mynediad statudol at ddŵr di-lanw ac ar ei hyd, yn yr un modd ag y gwna Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003:

   *"Anogir Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried a gweithredu Mesur er lles Cymru a fyddai'n cadw hawliau mynediad a chyfrifoldebau'r cyhoedd at adnoddau naturiol ac ar eu hyd yn yr un modd ag y mae'r Scottish Land Reform Act yn annog defnydd cydweithredol o'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden iach, llai heriol.*

   *"Mae'n rhaid i'r mesur hwn ddarparu a chaniatáu mynediad at ddŵr di-lanw ac ar ei hyd yn wyneb y diffyg enfawr mewn eglurder cyfreithiol a'r cyfyngiadau sy'n bodoli ar hyn o bryd, sy'n gweithredu fel rhwystr i chwaraeon a gweithgareddau hamdden a hyrwyddiad Cymru fel lle i ddod ar gyfer Twristiaeth Antur."*

2. Roedd ymchwiliad byr y Pwyllgor yn cynnwys dwy astudiaeth achos wahanol: ymweliad ag Afon Teifi yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion er mwyn canfod y ffeithiau a'r prif faterion sy'n gysylltiedig â gwahanol ddefnydd o'r dŵr; a chyfarfod ffurfiol yn Senedd yr Alban yng Nghaeredin er mwyn clywed tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd deddfwriaeth yr Alban. Mae'r adroddiad yn crynhoi yr hyn ganfuwyd yn ystod y ddau ymweliad, yn ogystal â nodi ein casgliadau a'n hargymhellion.

3. Hoffem ddiolch i'r holl sefydliadau a'r unigolion a gyfrannodd i'n ymchwiliad byr ac a wnaeth ein hymweliadau'n bosibl. Rydym yn ddiolchgar iddynt am rannu eu harbenigedd ac am roi o'u hamser i ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth.

**Ymweliad ag Afon Teifi i ganfod ffeithiau, 9 Chwefror 2009**

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

4. Dewiswyd astudio Afon Teifi yn y gorllewin gan ei bod yn cael ei defnyddio ar gyfer sawl gweithgaredd gwahanol, gan gynnwys canŵio, gweithgareddau awyr agored, nofio, rhwyfo a physgota. Mewn rhai rhannau o'r afon, bydd pobl yn canŵio ac yn pysgota yn yr un lle, ond nid mewn rhannau eraill. Mae cwryglau, sy'n un o'r ffyrdd hynaf o deithio ar ddŵr, yn dal i gael eu defnyddio ar yr afon, ac mae'r Ganolfan Gwrwgl Genedlaethol wedi'i lleoli yng Nghenarth. Ceir hawliau mordwyo cydnabyddedig yn aber Afon Teifi a hanes hir o geisio dwyn defnyddwyr hamdden i gyfraith yn uwch i fyny'r afon.

5. Ein hamcanion cyffredinol oedd siarad ag amrywiaeth eang o grwpiau defnyddwyr a grwpiau buddiant er mwyn canfod y canlynol:

- Y prif faterion sy'n achosi pryder neu'n destun cytuno ac anghytuno ymhlith y gwahanol ddefnyddwyr;
- Barn yr holl grwpiau ar fanteision ac anfanteision y ffyrdd mwyaf effeithiol o reoli'r modd y caiff dŵr mewndirol ei rannu, yn amrywio o gytundebau mynediad gwirfoddol i'r hyn y galwai'r deisebwyr amdano, sef hawl statudol i gael mynediad.

6. Cynhaliwyd chwe sesiwn yn ystod y dydd, yng **Nghanolfan Addysg Awyr Agored Padlwyr Llandysul,** yng **Nghenarth** ac yn **Rhaeadr Cenarth**. Dyma'r prif faterion a ddaeth i'n sylw:

- Roedd y sylwadau a'r teimladau'n gryf ar bob ochr i'r ddadl.
- Cytunai'r holl grwpiau bod diffyg eglurder a dealltwriaeth ynghylch hawliau a chyfrifoldebau (ee hawliau pysgota, hawliau perchnogion glannau'r afon, hawliau mynediad a hawliau mordwyo), ac mae hynny'n cyfrannu'n sylweddol at y rhagdybiaethau a'r teimladau ynghylch hawliau mynediad ar yr afon. Y disgrifiad gorau a glywyd yn ystod y diwrnod oedd bod yr holl sefyllfa'n draed moch.
- Mae diffyg eglurder a dealltwriaeth ynghylch hawliau cyfreithiol yn bwrw amheuaeth ac yn risg i'r broses o fuddsoddi adnoddau cyhoeddus er mwyn hyrwyddo a datblygu cyfleusterau hamdden ar hyd yr afon.
- Clywsom am enghreifftiau o wrthdaro ac am berthynas wael rhwng gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr (yn enwedig yn y mannau lle mae problemau mawr). Mae'r gwrthdaro hwn yn cynnwys ymddygiad ac iaith ymosodol, anwybodaeth a diffyg goddefgarwch, aflonyddu ar fannau silio pysgod a difrodi'r stoc bysgod.
- Er hynny, ceir enghreifftiau mewn rhannau eraill o Gymru lle mae pobl wedi gweithio'n gytûn â'i gilydd i gyflawni amcanion ar y cyd, fel drwy drefniadau mynediad gwirfoddol.
- Mae cyfraniad canŵio a physgota ill dau'n bwysig i fusnesau'r ardal leol.
- Mae'r ddau grŵp hefyd yn cyfrannu at werth amwynder yr afon, ac yn dibynnu llawer ar weithredu gwirfoddol o'u gwahanol gymunedau.

- Mae'r pysgotwyr yn dioddef o ganlyniad i absenoldeb un sefydliad cyffredinol i eirioli ar eu rhan, er bod Ffederasiwn Pysgotwyr Cymru wedi'i sefydlu'n ddiweddar i roi mwy o undod i lais y sector pysgota.
- Nid yw'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n canŵio yn aelodau o gorff llywodraethu'r chwaraeon, sef Cymdeithas Canŵio Cymru. Oherwydd hynny, maent y tu allan i'r fframwaith rheoli.
- Ar hyn o bryd, nid oes gan gyrff statudol fel Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ddigon o bwerau i reoleiddio'r gwahanol fathau o ddefnydd yn effeithiol.

7. Ceir crynodeb yn rhoi rhagor o fanylion am ein gwahanol drafodaethau isod.

**<u>Canolfan Addysg Awyr Agored Padlwyr Llandysul: Sesiwn 1</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Ashley Charlwood | Swyddog Datblygu Mynediad | Cymdeithas Canŵio Cymru* |
| Marion Bryant | Cyfarwyddwr | Padlwyr Llandysul |
| Fioled Jones | Aelod | Padlwyr Llandysul |
| Jethro Moore | Perchennog tir | Adventure Beyond |
| Cyng. Keith Evans | Ward Tref Llandysul | Cyngor Sir Ceredigion |

* Hefyd yn bresennol roedd Richard Harvey a Nigel Midgley o Gymdeithas Canŵio Cymru

8. Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n ariannu Canolfan Addysg Awyr Agored Padlwyr Llandysul. Clywsom am ddechreuadau'r Ganolfan; am sut y sefydlwyd y clwb padlwyr bum mlynedd ar hugain yn ôl gan deuluoedd a oedd yn ymwneud â grwpiau cybiau a sgowtiaid lleol; ac am sut mae'r Ganolfan wedi'i datblygu dros y blynyddoedd drwy grantiau gan Sefydliad Chwaraeon a Chelfyddydau yr Undeb Ewropeaidd. Mae rhai o'r aelodau gwreiddiol yn dal yn weithgar gyda'r Ganolfan ac mae sawl aelod o'r clwb wedi cael llwyddiant cenedlaethol a rhyngwladol yn eu maes.

9. Fodd bynnag, mae sefyllfa canŵio yn fregus ar Afon Teifi. Mae'n wir bod Canolfan Padlwyr Llandysul yn cael cymorth gan gynghorau sir Caerfyrddin a Cheredigion, a'i bod yn adnodd pwysig i bobl ifanc yr ardal. Mae'n wir hefyd ei bod yn denu pobl yno i ganŵio o bob cwr o Brydain (dros 15,000 o ymweliadau y llynedd). Serch hynny, mae'r hawl i ganŵio yno'n dal i ddibynnu ar brydles gan bysgotwyr Llandysul a roddodd gytundeb mynediad am 25 mlynedd ar hyd darn 700m o'r afon. Hyd yn oed yn yr ardaloedd lle mae tirfeddianwyr wedi rhoi mynediad ar y glannau i bobl sydd am ganŵio, bydd y rheini'n aml yn wynebu drwgdeimlad gan bysgotwyr sydd â hawl i bysgota, ac mae achosion llys wedi'u bygwth yn eu herbyn droeon. Mynegwyd pryderon ynghylch dyfodol y Ganolfan pan ddaw'r brydles i ben.

## Canolfan Addysg Awyr Agored Padlwyr Llandysul: Sesiwn 2

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Bryant | Swyddog Datblygu Chwaraeon Dŵr | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Allison Rees | Rheolwr Datblygu Chwaraeon | Cyngor Sir Caerfyrddin |

10. Clywsom sut y mae gan yr awdurdod lleol Weledigaeth Hamdden bum mlynedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin[1] sy'n annog pobl ifanc ac oedolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored a mwynhau'r byd naturiol o'u hamgylch. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol yng Nghanolfan Addysg Awyr Agored Llandysul dros y blynyddoedd, ac mae'n awyddus i weld pobl yn mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon yno. Dywedwyd wrthym mai'r nod oedd galluogi grwpiau canŵio i deithio o Landysul i Gastellnewydd Emlyn yn ystod misoedd yr haf. Fodd bynnag, er gwaethaf cael caniatâd tirfeddianwyr yng Nghastellnewydd Emlyn, roedd pysgotwyr lleol yn dal i herio hawl grwpiau canŵio i gael mynediad. Ymddangosai bod yr awdurdod lleol yn ansicr ynghylch ei bwerau cyfreithiol, a'i fod yn credu y byddai newid yn y gyfraith yn sicrhau mwy o eglurder ac yn rhoi diwedd ar wrthdaro rhwng defnyddwyr. Ar hyn o bryd, y cyfan y mae'n bosibl iddo'i wneud i reoli'r gwahanol ddefnyddwyr yw osgoi dewis ochr. Rhaid iddo geisio cynnal trafodaethau i benderfynu ar amseroedd neu lefydd penodol, a "chadw'r heddwch". Yn rhyfeddol, ar achlysuron, roedd yr awdurdod wedi prynu hawliau pysgota nad oedd arno mo'u hangen, cyn eu rhoi i bysgotwyr er mwyn caniatáu mynediad i grwpiau canŵio. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith nad oedd yr awdurdod yn sicr y byddai'r hawliau pysgota yn rhoi'r hawl i grwpiau canŵio fynd ar yr afon. Mewn llythyr diweddarach, heb gadarnhad o hynny, mynnai'r awdurdod lleol bod angen caniatâd y tirfeddiannwr er mwyn cynnal unrhyw weithgaredd ar ddyfrffyrdd mewndirol.[2]

## Canolfan Addysg Awyr Agored Llandysul: Sesiwn 3

| | | |
|---|---|---|
| Tim Greenslade | Perchennog ar lannau'r afon | Llanfihangel-ar-arth |
| Tonlas Evans | Ysgrifennydd | Cymdeithas Bysgota Llandysul |
| Ian Thomas | Cadeirydd | Cymdeithas Bysgota Llandysul |

11. Clywsom faint y mae aelodau Clwb Pysgota Llandysul a'u hymwelwyr yn ei dalu i bysgota ar yr afon (cannoedd o bunnoedd yr un) yn ogystal â chlywed sut oedd y clwb wedi cynorthwyo Padlwyr Llandysul yn eu dyddiau cynnar. Fodd bynnag, mae'r berthynas wedi dirywio, a hynny oherwydd ymyrraeth Cymdeithas Canŵio Cymru a'i chynlluniau "uchelgeisiol" ar gyfer y ganolfan. Dadleuwyd bod ansawdd y pysgota lleol hefyd wedi dirywio, bod nifer yr aelodau wedi lleihau yn y clwb pysgota, a bod cysylltiad rhwng y ddau beth hyn.

[1] Gweledigaeth Hamdden Sir Gaerfyrddin 2007-2012
[2] Llythyr gan Ian Jones, Pennaeth Hamdden a Chwaraeon, Cyngor Sir Gaerfyrddin, dyddiedig 18 Mawrth 2009

12. Dywedwyd wrthym fod y pysgotwyr, drwy Ymddiriedolaeth Afon Taf, yn gweithio'n galed i wella lles yr afon – am dâl ac hefyd yn wirfoddol – a'u bod yn fwy na bodlon i rannu'r afon drwy ddod i gytundeb. Fodd bynnag, nid oeddent yn credu bod modd gorfodi'r gyfraith bresennol, ac roeddent yn teimlo eu bod mewn cyfyngder gan nad oedd yr heddlu'n gwneud dim i ddechrau achosion sifil yn erbyn tresbaswyr.

13. I'r gwrthwyneb, dywedodd person lleol a oedd yn berchen ar dir ar lannau'r afon ei fod yn cefnogi'r grwpiau canŵio mewn egwyddor, a'i fod yn gadael iddynt fwrw eu canŵod i'r dŵr o lan yr afon sydd gyferbyn â'i gartref. Nid oedd ganddo farn gref ynghylch y materion ehangach sy'n ymwneud â rhoi mynediad, ond credai y byddai rhoi hawliau neilltuedig i un grŵp yn unig yn benderfyniad anghywir.

14. Y teimlad ymhlith Pysgotwyr Llandysul oedd y dylai pob canŵiwr gael rhif adnabod ac y dylent orfod talu am drwydded er mwyn defnyddio'r afon. Roedd pryder mawr y byddai hawl mynediad statudol yn arwain at golli refeniw trwyddedau pysgota, ac y byddai angen iawndal i wneud iawn am golli incwm.

**Canolfan Addysg Awyr Agored Llandysul: Sesiwn 4**

| | | |
|---|---|---|
| John Watkins | Pennaeth Polisi Hamdden | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Phil Stone | Swyddog Mynediad Ardal y Gorllewin | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Matt Strickland | Cynghorwr Hamdden a Mordwyo | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |

15. Clywsom fod Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi comisiynu adolygiad a gwerthusiad eang o'r gwahanol ffyrdd o reoli mynediad, gan gymharu'r sefyllfa â'r hyn sy'n digwydd yn rhyngwladol.[3] Cadarnhaodd y Cyngor Cefn Gwlad nad oedd y gwerthusiadau hyn wedi edrych ar ddulliau statudol gan fod briff Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn am weithio o fewn cyd-destun y ddeddfwriaeth bresennol. Yn dilyn y cyfarfod, anfonodd y Cyngor Cefn Gwlad gopi i ni yn rhoi enghraifft o werthuso prosiectau mynediad i ddŵr yng Nghymru[4]. Roedd hynny fel ymateb i awydd Gweinidogion Cymru i sicrhau gwell mynediad i'r cyhoedd i afonydd a llynnoedd yng Nghymru ar gyfer defnydd hamdden – drwy ddulliau anstatudol, cyn belled ag y bo modd.

16. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru gynllun strategol ar gyfer gweithgareddau dŵr yng Nghymru.[5] Clywsom gan yr Asiantaeth ei bod yn ei chael yn anodd trwyddedu pysgota gyda'r adnoddau a oedd ganddi – gall rhai pysgotwyr weithredu am flynyddoedd lawer heb i neb wirio bod ganddynt drwydded. Nid oes gan yr Asiantaeth

[3] Managing Recreation on Inland Waters in Wales: a Review of Approaches, Countryside and Community Research Unit, University of Gloucestershire, Adroddiad Ymchwil Polisi Cyngor Cefn Gwlad Cymru Rhif 07/4

[4] Evaluation: Access to Water Exemplar Projects in Wales, G & L Hughes Ltd, Adroddiad Ymchwil Polisi Cyngor Cefn Gwlad Cymru Rhif 08/27

[5] A Strategic Plan for Water Related Recreation in Wales, University of Brighton, 2008

farn swyddogol ynghylch hawl mynediad statudol, ac ar hyn o bryd mae'n credu mai addysg yw'r ffordd orau ymlaen. Fodd bynnag, roedd yr Asiantaeth yn cytuno y byddai'n croesawu rhagor o bwerau i reoli buddiannau gweithgareddau hamdden ynghyd â physgota, gan gynnwys cod ymarfer y gellid ei orfodi. Byddai hynny'n ei gwneud yn haws o lawer i staff gadw trefn ar lawr gwlad.

17. Clywsom gan y Cyngor Cefn Gwlad fod codau ymddygiad i'w cael yng Nghymru ond eu bod yn dueddol o fod yn wirfoddol, ac mae'n ymddangos eu bod yn gweithio orau pan fydd y defnyddwyr yn credu'n eu gwerthoedd neu'n cadw rhywfaint o reolaeth eu hunain – ee ym maes dringo creigiau.

18. I bob golwg, mae cytundebau gwirfoddol yn gweithio orau pan fydd cyrff cyhoeddus naill ai'n berchen ar y tir neu ar yr hawliau bysgota, ee afonydd Gwy a Glaslyn (lle mai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw'r perchennog). Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau (fel Afon Conwy) lle nad yw pethau wedi'u datrys ar ôl 20 i 30 mlynedd.

**Cenarth: Sesiwn 5**

| | | |
|---|---|---|
| Edward Fitzwilliams | Llywydd | Cymdeithas Brithyll Teifi |
| Bob Bird | Cadeirydd | Cymdeithas Brithyll Teifi |
| Edgar George | Is-lywydd | Cymdeithas Brithyll Teifi |
| Jeremy George | Cyfreithiwr | Cymdeithas Brithyll Teifi |
| Wayne Bishop | Ysgrifennydd | Cymdeithas Brithyll Teifi |
| David Griffiths | Swyddog Cadwraeth | Cymdeithas Brithyll Teifi |

19. Aethom ychydig o filltiroedd i lawr yr afon (ar hyd y ffordd) o Landysul i Genarth er mwyn cyfarfod cynrychiolwyr o Gymdeithas Brithyll Teifi. Ar ran grŵp a oedd yn cynrychioli clybiau pysgota, perchnogion pysgodfeydd a pherchnogion tir ar lannau'r afon drwy Gymru, roedd y Gymdeithas wedi ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad ddechrau mis Ionawr 2009 i fynegi gwrthwynebiad i ddeiseb Cymdeithas Canŵio Cymru.[6]

20. Dechreuodd y Gymdeithas drwy gyflwyno papur a oedd yn rhoi hanes Cymdeithas Brithyll Teifi. Mae'r gymdeithas wedi darparu cyfleusterau ar gyfer pysgotwyr lleol ac ymwelwyr ers 84 o flynyddoedd.[7]

21. Roedd y papur hefyd yn rhoi enghreifftiau o wrthdaro rhwng grwpiau canŵio a physgotwyr, a hynny gan fod nifer fawr o bobl yn canŵio ac yn rafftio'n anghyfreithlon ar ddŵr Cymdeithas Brithyll Teifi gydol y flwyddyn. Clywsom mai methiant fu ymdrechion i ddod i gytundeb â'r grwpiau canŵio i gynnal eu gweithgareddau y tu allan i'r tymor pysgota. Mewn ail bapur,[8] cyhuddwyd Cyngor Sir Caerfyrddin gan y Gymdeithas o flerwch ac anwybodaeth am ddefnyddio arian cyhoeddus i greu sefydliad a oedd wedi cael hawl i dorri cyfraith y wlad heb unrhyw gosb. Fel Pysgotwyr Llandysul,

[6] E-bost gan David Griffiths, dyddiedig 13 Ionawr 2009
[7] Cymdeithas Brithyll Teifi – Canoeists/Rafters Dispute, papur gan Edgar George
[8] Cymdeithas Brithyll Teifi – Canoeists/Rafters Dispute, papur gan Edgar George, yn cynnwys erthygl gan Moc Morgan

roedd y Gymdeithas am weld system lle byddai'n rhaid i grwpiau canŵio brynu trwyddedau er mwyn defnyddio'r afon, a hynny'n cael ei reoleiddio.

22. Roedd yr un pryderon a fynegwyd gan y Gymdeithas i'w gweld hefyd mewn nifer o negeseuon e-bost a llythyrau a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad gan grwpiau eraill o bysgotwyr (gweler y rhestr o gyflwyniadau a ddaeth i law, isod).

**<u>Rhaeadr Cenarth: Sesiwn 6</u>**

23. Aethom i'r Ganolfan Gwrwgl Genedlaethol yn Rhaeadr Cenarth er mwyn siarad â Martin Fowler, y perchennog a'r rheolwr. Yn ei farn ef, dylai fod gan bawb yr hawl i ddefnyddio'r afon. Sefydlwyd y Ganolfan 16 mlynedd yn ôl, a gwnaed gwaith i adfer melin o'r unfed ganrif ar ddeg, ond nid oedd y perchennog yn berffaith sicr beth oedd ei hawliau perchnogaeth yn caniatáu iddo ef – a phobl eraill – ei wneud. Er ei fod yn rhoi caniatâd i grwpiau canŵio ddefnyddio'i ddarn o'r dŵr, roedd pysgotwyr wedi rhoi arwyddion "dim canŵio" heb ganiatâd ar lannau'r afon a oedd yn berchen iddo ef. Gellir defnyddio cwryglau, sydd wedi bod ar yr afon ers miloedd o flynyddoedd, i bysgota ar ddŵr llanw afon Teifi, ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n rheoleiddio hynny. Ar hyn o bryd, mae gan ddeuddeg o bobl drwyddedau i bysgota ar afon Teifi am eogiaid a brithyllod ar gwryglau, er bod y Pwyllgor yn y cyfamser wedi cael apêl gan y pysgotwyr hynny ynghylch y cynnydd yng nghost y trwyddedu hyn.[9]

### Cyflwyniadau eraill a ddaeth i law

1. Y Gynghrair Cefn Gwlad, llythyr dyddiedig 2 Mawrth 2009
2. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, papur safbwynt gan John Watkins, cyflwynwyd ar 9 Chwefror 2009
3. Cymdeithas Bysgota Crughywel a'r Cylch, llythyr dyddiedig 20 Ionawr 2009
4. Gittins, Michael, Pwyllgor Pysgota Cyngor Tref Aberhonddu, e-bost dyddiedig 30 Ionawr 2009
5. Marsh-Smith, Stephen, Cadeirydd yr Angling Trust, e-bost dyddiedig 5 Chwefror 2009
6. Cymdeithas Bysgota Merthyr Tudful, llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2008
7. Moore, Jethro, copïau o doriadau o bapurau newydd a llythyrau, derbyniwyd ar 19 Mawrth 2009
8. Rooney, Paddy, llythyr dyddiedig 2 Mawrth 2009
9. Ffederasiwn Cynefinoedd a Physgota Afonydd Cymru, e-bost dyddiedig 6 Ionawr 2009
10. Cymdeithas Cadwraeth Afonydd Cymru, llythyr dyddiedig 17 Ionawr 2009

---
[9] E-bost gan Mike Elias, Ysgrifennydd Carmarthen Coracles, dyddiedig 11 Mawrth 2009

**Cyfarfod ffurfiol yn Senedd yr Alban, 2 Mawrth 2009**

**Y Fframwaith Deddfwriaethol**

Cyn pasio'r Ddeddf

24. Disgrifiad Philip Smith, Swyddog Polisi yn Llywodraeth yr Alban, o Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 oedd:

    *"one of the most advanced pieces of access legislation in the whole of Europe and is, by and large, working well."*[10]

25. Cyn i'r Ddeddf ddod i rym, dywedodd Rob Garner, Swyddog Polisi gyda Scottish Natural Heritage, fod diffyg cydbwysedd[11] rhwng rhoi hawliau cyfreithiol clir i'r cyhoedd ar y naill law, a'r ffyrdd sydd gan dirfeddianwyr neu berchnogion o fynd i'r afael â thresbasu neu ymddygiad anghyfrifol ar y llaw arall. Roedd yn amlwg i ni bod nifer o bethau'n debyg rhwng y sefyllfa a fodolai yn yr Alban cynt a'r sefyllfa bresennol o ran dŵr mewndirol yng Nghymru. Fel y gwelsom ar ein hymweliad ag Afon Teifi, nid yw'r fframwaith cyfreithiol presennol yn rhoi ffordd synhwyrol nac addas o reoli anghenion gwahanol bobl sy'n mwynhau'r dŵr.

26. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr amheuon a fodolai cyn i'r Ddeddf ddod i rym yn yr Alban: roedd nifer o dirfeddianwyr ac unigolion a oedd â budd masnachol mewn pysgota yn gwrthwynebu'n gryf y bwriad i ehangu hawliau mynediad i ddŵr mewndirol. Rhoddwyd rhesymau cadwraethol – fel yr angen i ddiogelu stociau pysgod a chynefinoedd sensitif – dros wrthwynebu mynediad i ddŵr mewndirol, yn debyg i'r modd yr oedd pysgotwyr afon Teifi wedi mynegi pryderon mawr ynghylch y bygythiad i fannau silio a nifer y pysgod yn sgil ehangu mynediad.

27. Fodd bynnag, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol cyn cyhoeddi'r Mesur drafft yn 2001, dywedodd Scottish Natural Heritage[12] fod Gweinidogion yr Alban wedi canfod bod y pryderon ynghylch rhoi hawl mynediad i ddŵr mewndirol wedi'u gorbwysleisio. At hynny, roeddent o'r farn na fyddai'r anawsterau cyfreithiol mor fawr ag y credwyd yn wreiddiol.

Y Ddeddf

28. Daeth Rhan 1 y Ddeddf i rym yn yr Alban ar 9 Chwefror 2005. Roedd y Ddeddf yn rhoi hawl i gael mynediad cyfrifol (heb foduron) i'r rhan fwyaf o'r tir a'r dyfrffyrdd mewndirol yn y wlad. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwyslais ar reoli mynediad yn lleol, ac yn rhoi dyletswyddau a phwerau i'r 32 awdurdod lleol a'r ddau barc cenedlaethol yn yr Alban – sef Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorm ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Loch Lomond a'r Trossachs – i ddarparu hawliau mynediad. Mae hyn yn

[10] Cofnod y Trafodion colofn 18, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[11] O baragraff 3.2.18 Access to the Countryside for Open-air Recreation, cyngor gan Scottish Natural Heritage i'r Llywodraeth, 1999
[12] Cofnod y Trafodion colofn 29, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau, yn dyfynnu'r Mesur drafft 2001

cynnwys dyletswydd i greu system “Cynllun Llwybrau Craidd”, cyflogi swyddogion mynediad lleol, a sefydlu Fforymau Mynediad Lleol.

Y Cod

29. Roedd y Ddeddf yn dod law yn llaw â chod mynediad ar gyfer yr awyr agored[13] sy’n nodi hawliau a chyfrifoldebau perchnogion tir a’r rheini sy’n defnyddio eu hawliau mynediad o dan y Ddeddf. Mae gan Scottish Natural Heritage a’r awdurdodau mynediad ddyletswydd i hyrwyddo’r Cod, ac mae gan Scottish Natural Heritage hefyd ddyletswydd i hyrwyddo dealltwriaeth ohono. Mae’r Cod yn cynnwys cyngor ymarferol ynghylch sut y dylai’r cyhoedd a rheolwyr tir ymddwyn. Ceir adrannau sy’n egluro sut y mae hawliau mynediad yn berthnasol hefyd i weithgareddau ar y dŵr nad ydynt yn ymwneud â moduron. Er enghraifft, ar gyfer canŵio, rafftio, rhwyfo a hwylio, ceir canllawiau ar gyfer parchu hawliau pysgotwyr drwy osgoi rhwydi ac offer pysgota, peidio â gwneud gormod o sŵn pan fydd pysgotwyr gerllaw, a chadw pellter diogel o bysgotwyr ar y llynnoedd. Ceir adran hefyd ar bysgota sy’n esbonio nad yw hawliau mynediad yn berthnasol i bysgotwyr, a nodir y dylai pysgotwyr fod yn ofalus wrth daflu i’r dŵr ac ati.

30. Mae nifer o gyrff wrthi’n datblygu canllawiau i’w rhoi ar y we ar gyfer rheoli mynediad i ddŵr mewndirol, ac mae’r cyrff hynny’n cynnwys Cymdeithas Canŵio’r Alban (Scottish Canoe) a’r Scottish Rural Property and Business Association. Disgwylir y bydd y canllawiau ar gael ddiwedd y gwanwyn 2009.

Fforymau Mynediad

31. Scottish Natural Heritage sy’n trefnu Fforwm Mynediad yr Alban, sef cymdeithas wirfoddol o’r sefydliadau perthnasol a sefydlwyd i adolygu cod mynediad awyr agored yr Alban a hyrwyddo’r broses o reoli mynediad i dir a dŵr mewn ffordd gyfrifol. Mae’r Fforwm yn cyfarfod yn gyhoeddus ddwywaith y flwyddyn ac yn trafod pob mater a ddaw gerbron.

32. Ceir hefyd Fforymau Mynediad Lleol sy’n dod â phobl sydd â buddiannau gwahanol ynghyd er mwyn cytuno sut i ddatblygu, rheoli a hyrwyddo mynediad yn lleol. Mae modd i’r fforymau lleol hyn ganolbwyntio ar faterion sy’n bwysig yn lleol: maent yn cynghori ynghylch hawliau mynediad, hawliau tramwy a datblygu’r Cynlluniau Llwybrau Craidd, yn ogystal â rhoi cymorth i ddatrys anghydfodau, gan eu bod yn aml yn adnabod y defnyddwyr unigol yn bersonol.

Ar ôl pasio’r Ddeddf

33. Roedd yn ddiddorol clywed gan Anne Gray, Swyddog Mynediad i’r Scottish Rural Property and Business Association, fod ei swydd yn cael ei noddi’n rhannol gan Scottish Natural Heritage er mwyn helpu rheolwyr tir

---

[13] Public Access to Scotland’s Outdoors, Scottish Outdoor Access Code, Scottish Natural Heritage, Gorffennaf 2004

ar lefel genedlaethol ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd.[14] Dywedodd ei bod wedi gweithio'n agos i ddatblygu "is-godau" neu ganllawiau ychwanegol ar gyfer rheolwyr tir, weithiau ar y cyd â chyrff hamdden, a'i bod yn ymateb i ymholiadau gan aelodau.

34. Dywedodd Anne Gray wrthym fod y Ddeddf yn dibynnu'n gymharol drwm ar ddefnyddio synnwyr cyffredin.[15] Fodd bynnag, roedd angen creu diwylliant o roi mynediad yn yr Alban.[16] Mae deddfwriaeth sy'n rhoi mynediad wedi bodoli yn y gwledydd Llychlynnaidd ers llawer mwy o amser. Yno, bydd pobl yn gwybod eu hawliau mynediad wrth dyfu, gan eu bod yn gyfarwydd â'r rheini ers eu bod yn ifanc. Adleisiwyd hyn gan Eddie Palmer, Aelod o Fwrdd Cymdeithas Canŵio'r Alban (Canoe Scotland), a chyfeiriodd at yr ymrwymiad tymor hir i ailsefydlu'r berthynas rhwng yr Alban a'r tir.

35. Y Scottish Anglers National Association Ltd yw'r corff llywodraethu ar gyfer pysgota gêm yn yr Alban, ac mae'n cynrychioli 340 o glybiau pysgota a 150 o aelodau unigol (tua 31,500 o aelodau i gyd). Roedd Ronnie Picken, Llywydd a Chadeirydd y gymdeithas, yn ddi-flewyn-ar-dafod wrth ddweud wrthym:

*"the discriminatory situation caused in Scotland by the Land Reform (Scotland) Act 2003…has disadvantaged salmon and trout anglers, devalued proprietors' property and is currently destroying jobs and much-needed business in angling and other country sports."*[17]

36. Fodd bynnag, nid oedd Mr Picken yn gwrthwynebu'r ddeddfwriaeth ei hun, ond yn hytrach y modd yr oedd yn cael ei dehongli, ei gorfodi a'i rheoli drwy'r Cod Mynediad.

37. Nid oedd Ron Woods, Swyddog Polisi y Scottish Federation of Coarse Anglers, yn gallu bod yn bresennol yn y sesiwn dystiolaeth yn Senedd yr Alban, ond dywedodd wrthym, i'r gwrthwyneb, fod y ddeddfwriaeth wedi cael bron i ddim effaith ar bysgota bysgod bras yn yr Alban. Er nad oedd ganddo dystiolaeth bod y ddeddfwriaeth wedi arwain at ddatrys anghydfodau'n well, nid oedd ganddo dystiolaeth ychwaith fod nifer yr anghydfodau wedi cynyddu."[18]

### Rheoli anghydfodau

38. Clywsom gan yr holl dystion yn yr Alban bod mannau penodol yn bodoli lle ceir gwrthdaro neu ddefnydd amhriodol.[19] Er enghraifft, cafodd Cymdeithas Canŵio'r Alban 35 o gwynion am ddigwyddiadau'n ymwneud â mynediad y llynedd, a hynny mewn perthynas â chwech o afonydd a

---

[14] Cofnod y Trafodion colofn 109, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[15] Cofnod y Trafodion colofn 114, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[16] Cofnod y Trafodion colofn 132, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[17] Cofnod y Trafodion colofn 144, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[18] E-bost gan Ron Woods, Swyddog Polisi, Scottish Federation of Coarse Anglers, dyddiedig 25 Chwefror 2009
[19] Cofnod y Trafodion colofnau 15, 51, 120, 126, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau

thua hanner dwsin o bobl. Bu mwy o ddigwyddiadau na hynny, ond ni chawsant eu cofnodi.[20]

39. Yr enghraifft y cyfeiriwyd ati amlaf oedd anghydfod ar Afon Tay, lle bu gwrthdaro lleol rhwng rafftwyr a physgotwyr, ac roedd hynny'n dal i achosi rhywfaint o bryder. Ym marn Scottish Natural Heritage,[21] mae'r anghydfodau hyn fel arfer wedi'u seilio ar anwybodaeth, ac mae cytundeb gwirfoddol bellach wedi'i lunio rhwng cwmnïau rafftio masnachol Aberfeldy a'r Upper Tay Riparian Owners Association.[22] Barn Cymdeithas Genedlaethol Pysgotwyr yr Alban oedd bod rafftio, a rafftiau masnachol yn arbennig, wedi rhoi diwedd ar bysgota eogiaid yn rhan uchaf Afon Tay.[23]

40. Barn Llywodraeth yr Alban[24] oedd mai nad mater yn ymwneud â diwygio'r tir oedd anghydfodau ynghylch dŵr mewndirol, ond yn hytrach mater yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac y dylai'r awdurdodau perthnasol ymdrin â hynny, yn bennaf drwy'r heddlu lleol. Barn y Scottish Rural Property and Business Association[25] oedd na ddylid gorbwysleisio'r digwyddiadau hyn, gan mai dim ond mewn rhai mannau penodol yr oeddent yn digwydd. Teimlai Cymdeithas Canŵio'r Alban (Canoe Scotland) fod y problemau'n cael eu gorliwio.[26]

41. O ran rheoli gwahanol fathau o ddefnydd a allai wrthdaro â'i gilydd, roedd yn ddiddorol clywed bod y Ddeddf yn galluogi awdurdodau mynediad i eithrio rhoi hawliau mynediad i ddarnau penodol o ddŵr am gyfnod byr, gan ddefnyddio gorchmynion o dan Adran 11. Mae hyn yn sicrhau y gellir cynnal digwyddiadau mawr, achlysurol (fel Pencampwriaeth Pysgota Plu'r Byd) heb fod defnyddwyr eraill ar y dŵr.[27]

### Costau

42. Yr awdurdodau mynediad lleol sy'n talu am gostau darparu'r seilwaith er mwyn cynyddu, gwella neu ehangu mynediad, ynghyd â chostau cynnal a chadw'r cyfleusterau hynny. Gyda'i gilydd, maent wedi cael dros £8 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth yr Alban er mwyn gwneud gwaith ar fynediad.

43. Mae modd i reolwyr tir, grwpiau a sefydliadau cymunedol ddefnyddio Rhaglen Datblygu Gwledig yr Alban er mwyn ariannu cynlluniau mynediad lleol, ee llwybrau, meysydd parcio, arwyddion a giatiau. Mae'r arian hwnnw'n cael ei roi o dan Echel 3 grantiau'r Undeb Ewropeaidd. Mae arian hefyd ar gael ar gyfer rhoi gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth, ee taflenni, deunydd dehongli, ac yn y blaen.

[20] Cofnod y Trafodion colofn 198, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[21] Cofnod y Trafodion colofn 15, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[22] Fframwaith rhwng Aberfeldy Commercial Rafting Operators a'r Upper Tay Riparian Owners Association ynghylch y rhan o afon Tay rhwng Aberfeldy a Grandtully, llofnodwyd 3 Ebrill 2007
[23] Cofnod y Trafodion colofn 147, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[24] Cofnod y Trafodion colofn 16, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[25] Cofnod y Trafodion colofn 126, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[26] Cofnod y Trafodion colofn 209, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[27] Cofnod y Trafodion colofn 223, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau

44. Wrth gyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo dealltwriaeth ynghylch hawliau a chyfrifoldebau o ran mynediad, mae Scottish Natural Heritage wedi bod yn gwario tua £1 miliwn y flwyddyn, er bod £0.6 miliwn o hwnnw wedi'i wario ar hysbysebion teledu. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y buddsoddiad yn dwyn ffrwyth. Mae ymwybyddiaeth ynghylch hawliau mynediad ynghylch y cyhoedd yn gyffredinol wedi cynyddu o 30 y cant i dros 60 y cant, ac mae tua 90 y cant o'r rheini sy'n canŵio yn deall yr hawliau o dan y Cod.[28]

45. O ran talu am fynediad, dywedodd Cymdeithas Canŵio'r Alban (Canoe Scotland) wrthym fod pysgotwyr yn talu i dynnu pysgod o'r dŵr, tra nad yw grwpiau canŵio a cherddwyr yn cyfrannu yn y fath fodd. At hynny, tra bo pysgotwyr yn talu tuag at y gost o stocio afonydd a'u cadw'n lân, mae'r trethdalwr hefyd yn cyfrannu yn sgil buddsoddiad Asiantaeth yr Amgylchedd.[29]

**Cyflwyniadau eraill a ddaeth i law**

1. Cymdeithas Genedlaethol Pysgotwyr yr Alban, papur gan James R Picken, cyflwynwyd ar 2 Mawrth 2009
2. Cymdeithas Canŵio'r Alban (Canoe Scotland), papur gan Eddie Palmer, derbyniwyd ar 18 Chwefror 2009
3. Llywodraeth yr Alban, papur gan Philip J Smith, cyflwynwyd ar 2 Mawrth 2009
4. Scottish Natural Heritage, papur gan Rob Garner, derbyniwyd ar 27 Chwefror 2009
5. Scottish Natural Heritage, Loch Leven National Nature Reserve Local Access Guidance, Mehefin 2006 (cyflwynwyd ar 2 Mawrth 2009)
6. Scottish Rural Property and Business Association, papur gan Anne Gray, derbyniwyd ar 25 Chwefror
7. Sport Scotland, Out There, A sportscotland policy statement on sport and physical recreation in the outdoors, Chwefror 2009 (cyflwynwyd ar 2 Mawrth 2009)

[28] Cofnod y Trafodion colofn 65, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau
[29] Cofnod y Trafodion colofn 215, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau

## Casgliadau

46. Cytunwn â nifer o'r tystion fod afonydd Cymru yn rhodd naturiol ac y dylai fod gan bawb yr hawl i'w mwynhau. Credwn felly y dylai pawb gael hawl mynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru. Ni ddylai'r mynediad hwnnw fod wedi'i seilio ar roi hawliau mympwyol nac ar y gallu i dalu amdanynt, ond yn hytrach ar gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.

47. Mae'n debygol mai dim ond cynyddu wnaiff defnydd hamdden o afonydd Cymru dros amser, yn enwedig gan fod sefydliadau fel Asiantaeth yr Amgylchedd wedi datblygu strategaethau i hyrwyddo'r defnydd o'r dŵr. Mae dros 20,000 o bobl yn canŵio yng Nghymru bob wythnos, ac mae'n chwaraeon sy'n tyfu ar gyfradd o 9 y cant bob blwyddyn. Ein casgliad yw bod angen newid y trefniadau mynediad presennol er mwyn addasu i batrymau ac i'r galw newydd hwn.

48. Credwn fod llawer o gymhlethdod a dryswch ynghylch nifer o'r hawliau amrywiol ar gyfer dŵr mewndirol (chwaraeon, pysgota, glannau'r afon, eiddo, mynediad, mordwyo) ac ynghylch pa hawl sydd â blaenoriaeth.

49. Derbyniwn y gall cytundebau mynediad gwirfoddol weithio.
Mae afon Gwy ac afon Glaslyn yn enghreifftiau (gweler y cyflwyniad hefyd gan CLA Wales)[30] ond gall y broses honno gymryd amser. Gall gymryd sawl blwyddyn i ddod â phob ochr ynghyd mewn un ystafell, heb sôn am ddod i gytundeb.

50. Cytunwn â mwyafrif y tystion a gyfrannodd i'r ymchwiliad nad yw'r sefyllfa bresennol yng Nghymru yn gweithio nac yn gynaliadwy. Dylid canolbwyntio ar ansawdd, eglurder, sicrwydd a sefydlogrwydd yn y dyfodol. Ein casgliad yw bod achos dros ddiwygio'r fframwaith presennol er mwyn rhoi hawl gyfreithiol i gael mynediad heb fodur i ddŵr mewndirol yng Nghymru.

51. Credwn fod mecanweithiau a phrosesau Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 yn gwneud llawer i ddarparu eglurder a dealltwriaeth ynghylch y sefyllfa yn yr Alban. Fan lleiaf, mae'r Ddeddf wedi sefydlu hawliau a chyfrifoldebau statudol; mae wedi creu fforymau mynediad lleol i annog trafodaethau rhwng grwpiau; mae wedi annog y defnydd o addysg er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch hawliau a chyfrifoldebau gwahanol bobl; ac, yn arwyddocaol, mae wedi arwain at fuddsoddi mewn gweithgareddau hamdden a'r amgylchedd. Credwn fod y cydbwysedd clir o ran hawliau yn yr Alban yn golygu bod y ddadl ynghylch mynediad bellach yn llawer mwy cynhyrchiol. Mae'r gwahanol grwpiau wedi gallu rhoi'r gorau i arddel dadleuon cul ynghylch hawliau cyfreithiol[31] ac wedi gallu datblygu ffyrdd o gyfathrebu a thrafod er mwyn canfod atebion ymarferol a chydweithio a monitro ar y cyd. Felly, awgrymwn fod hwn yn fodel defnyddiol y gellid ei gopïo a'i addasu ar gyfer Cymru.

---

[30] Llythyr ac atodiadau gan Julian Salmon, Cyfarwyddwr CLA Wales, derbyniwyd 5 Chwefror 2009
[31] Cofnod y Trafodion colofn 39, 2 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Deisebau

52. Fodd bynnag, deallwn pam nad yw rhai grwpiau penodol am weld newid a pham eu bod yn gwrthwynebu cyflwyno cyfreithiau mynediad newydd yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y bydd angen amser er mwyn cael digon o ddealltwriaeth a disgwyliadau ynghylch hawliau mynediad, ac felly pwysleisiwn bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ac addysgu o oedran cynnar. Mae gwir angen datblygu parch a gwell cyfathrebu rhwng pob ochr yn y ddadl hon.

53. Rydym yn cydnabod y ceir anhawster i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â Chod Mynediad Awyr Agored yr Alban, gan nad yw'r holl bobl sy'n canŵio yn aelodau o'r corff llywodraethu, sef Cymdeithas Canŵio'r Alban (Canoe Scotland). Yn yr un modd, nid yw pawb sy'n canŵio yng Nghymru yn perthyn i Gymdeithas Canŵio Cymru. Awgrymodd y pysgotwyr ar afon Teifi wrthym y dylai pawb sy'n canŵio gael rhif adnabod ac y dylent orfod talu am drwydded i ganŵio. Mae'r syniad yn werth ei ystyried, ond a fyddai modd gorfodi hynny? Clywsom gan Asiantaeth yr Amgylchedd ei bod yn ei chael yn ddigon anodd trwyddedu pysgota'n unig gyda'r adnoddau sydd ganddi. At hynny, byddai system o rifau adnabod neu drwyddedau yn anodd i'w chyflwyno gan fod pobl yn benthyg canŵod i'w gilydd. Fodd bynnag, er gwaethaf yr anawsterau hyn, dylid gwneud rhyw fath o ymgais i adnabod grwpiau canŵio a chwmnïau masnachol, fan lleiaf.

54. Rydym yn cydnabod bod gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd a'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant gyfrifoldebau o ran mynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru, a byddwn yn ysgrifennu at gadeiryddion y ddau Bwyllgor ynghylch ein argymhellion isod.

**Argymhellion**

55. Byddai statud newydd yn sicrhau bod gan bawb fynediad i ddŵr mewndirol yng Nghymru, a hynny ar sail gyfartal. Byddai hefyd yn darparu eglurder, sicrwydd a sefydlogrwydd a chredwn fod Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 yn rhoi sylfaen ar gyfer datblygu model unigryw yng Nghymru. **Argymhellwn** y dylid cynnal ymchwiliad pellach ac ehangach gyda'r nod o gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn. Byddai hynny'n rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid gyflwyno tystiolaeth.

56. Fodd bynnag, ni fydd rhoi mynediad statudol yn bosibl heb godau ymddygiad y gellir eu gorfodi ar gyfer dŵr mewndirol, a hynny er mwyn cyflwyno amodau amgylcheddol ac amodau eraill a sicrhau bod synnwyr cyffredin yn cael ei ddefnyddio. **Argymhellwn** y dylai unrhyw ymchwiliad craffu llawn ystyried cyflwyno cod gorfodol er mwyn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth. Byddai hynny'n golygu bod modd rheoli a rheoleiddio hawl mynediad newydd i ddŵr mewndirol yng Nghymru, a dylid ceisio datblygu system i allu adnabod defnyddwyr rheolaidd.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
31 Mawrth 2009